Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion**
**Portland Place**
**Aberaeron**
**Ceredigion**
**SA46 0AX**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk



**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 15/02/2013**

## Cyd-destun

Mae Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion yn rhan o ddarpariaeth y mae awdurdod lleol Ceredigion yn ei gwneud ar gyfer disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol.

Mae anghenion dysgu ychwanegol gan lawer o'r disgyblion ac mae tua 25% yn blant sy'n derbyn gofal.

Mae pob disgybl ar y gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac mae gan tua 20%, ddatganiad o Anghenion Addysg Arbennig.

Yn dilyn arolygiad Estyn o Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion yn 2006, bu ailstrwythuro ac ailfodelu darpariaeth yr Uned yn unol ag argymhellion yr arolygiad, ynghyd â pholisi'r awdurdod addysg, gan ddechrau yn 2010.

Mae Uned Cyfeirio Disgyblion bresennol Ceredigion wedi'i chofrestru gyda Llywodraeth Cymru fel Uned Cyfeirio Disgyblion 'portffolio'. Lleolir yr uned ar dri safle ar wahân ac mae un Bwrdd Rheoli'n goruchwylio'r uned gyda strwythur rheoli llinell integredig.

Mae 24 o ddisgyblion ar gofrestr yr uned; 5 yng Nghanolfan yr Eos (Aberystwyth); 6 yng Nghanolfan Bro Steffan (Cribyn); a 13 yng Nghanolfan Aeron (Aberaeron).

Nod yr uned yw dychwelyd pob disgybl i addysg y brif ffrwd a/neu i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae pob disgybl yn cael darpariaeth amser llawn, a darperir rhywfaint o honno o fewn yr uned a'r gweddill gan ysgol brif ffrwd, coleg, darparwr hyfforddiant a/neu ddarparwr galwedigaethol.

Mae tua 45% yn cael prydau ysgol am ddim. Mae o gwmpas 80% o'r disgyblion yn dod o gartrefi ble nas oes riant/warcheidwaid yn siarad Cymraeg a tua 17% yn dod o gartrefi ble mae un rhiant warcheidwad yn siarad Cymraeg. Nid oes unrhyw ddisgybl yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae'r uned hefyd yn cynnig gwasanaeth cymorth yn y maes i ysgolion y sir ar agweddau penodol ar wella ymddygiad.

Mae'r athrawes â gofal am yr uned wedi bod yn ei swydd ers Medi 2010.

Nid yw Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion yn ei threfn bresennol wedi cael ei harolygu yn y gorffennol.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr UCD** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r UCD** | **Rhagorol** |

**Perfformiad presennol**

Mae Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion yn dda oherwydd bod:

- bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da sydd yn sicrhau eu bod yn derbyn cymwysterau cydnabyddedig, neu'n datblygu'r medrau angenrheidiol i symud ymlaen i ysgolion, addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth;
- ymddygiad a phresenoldeb y disgyblion yn dda iawn;
- effaith arweiniad strategol yn sicrhau safonau uchel;
- safon y gofal, cefnogaeth ac arweiniad yn ardderchog;
- y staff yn adnabod sut i gyfarfod ac anghenion penodol y disgyblion, a bod
- hyblygrwydd y cwricwlwm yn cynnig ystod eang o weithgareddau ar gyfer cyfarfod ag anghenion y disgyblion.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwelliant rhagorol i'r uned oherwydd:

- bod y corff rheolaethol a'r athrawes â gofal yn cynnig arweiniad clir sydd wedi sicrhau gwelliannau dros gyfnod byr o amser;
- y cydweithio effeithiol rhwng yr uned a'r awdurdod lleol a phartneriaid eraill;
- fod y diwylliant o hunanarfarnu a sicrhau gwelliant wedi arwain at welliannau, arwyddocaol mewn safonau a lles y disgyblion, a'r
- awyrgylch cefnogol sydd yn magu hyder yn y dysgwyr, ac yn meithrin yr awydd i ddysgu.

## Argymhellion

A1 Codi safonau'r disgyblion yn eu defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y gwahanol weithgareddau;

A2 Parhau i ddatblygu strategaethau asesu ar gyfer dysgu;

A3 Cynyddu'r cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio Cymraeg o fewn yr uned;

A4 Sicrhau bod yna strategaeth glir ar gyfer hyrwyddo medrau.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Uned Cyfeirio Disgyblion Ceredigion yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr uned i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar draws yr uned, mae'r bron pob un o'r disgyblion yn cyflawni safonau da o ystyried eu man cychwyn wrth ddechrau yn yr uned. Maent yn ymateb yn dda i dargedau eu cynlluniau addysgu unigol. Mae bron pob un o'r disgyblion, ym mhob cyfnod allweddol, yn gwneud cynnydd da iawn yn erbyn eu cyflawniadau blaenorol ac yn erbyn meini prawf llwyddiant penodol.

Nid yw yn briodol cymharu'r safonau cyflawniad yn yr uned â chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau perfformiad dros amser oherwydd yr ystod eang o anghenion arbennig sydd gan ddisgyblion yr uned.

Nid oes yna wahaniaeth sylweddol rhwng cyflawniadau gwahanol grwpiau o ddisgyblion, gan gynnwys bechgyn a genethod, plant o dan ofal a'r rheini sydd yn cael prydau am ddim.

Mae bron pob un yn gwneud cynnydd da yn eu medrau. Mae bron pob disgybl yn dangos cynnydd da a chyson dros amser yn eu medrau darllen. Maent yn deall yr hyn maent yn ei ddarllen ac yn gallu trafod y cynnwys yn hyderus gydag eraill. Mae'r ychydig ddisgyblion is eu gallu yn adnabod llythrennau a'u defnyddio i greu geiriau unsill, a'u darllen yn rhugl. Mae disgyblion hyn yn defnyddio eu medrau darllen yn dda i gasglu gwybodaeth o wahanol ffynonellau a gallant siarad am ddigwyddiadau mewn llyfr gan ddangos dealltwriaeth dda.

Mae disgyblion iau yn ysgrifennu brawddegau syml i fynegi eu hunain, gan sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir. Mae'r rhai hynaf yn ateb cwestiynau yn ysgrifenedig, yn glir a chryno gyda'r mwyaf galluog yn dangos cynnydd da iawn o fewn medrau iaith a chyfathrebu gan ddefnyddio amrediad da o eirfa o fewn cyd-destun penodol. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn ansicr ynghylch sut i atalnodi, megis gosod atalnod llawn neu pryd i ddefnyddio prif lythyren mewn tasgau ysgrifenedig.

Maent bron i gyd yn gwrando yn astud ac yn ymateb yn frwdfrydig gyda llawer yn canolbwyntio yn barhaus ar eu tasgau ac yn dangos dyfalbarhad.

Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o fewn gwersi ffurfiol Cymraeg. Serch hynny, nid yw llawer o'r disgyblion yn dewis defnyddio'r iaith yn ddigon aml yn achlysurol neu mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr uned yn gwneud defnydd effeithiol o fedrau rhifedd ar draws amrediad o bynciau. Maent hefyd yn gwneud defnydd da o fedrau rhifedd mewn sefyllfaoedd o fewn y gymuned, er enghraifft wrth drin arian. Fodd bynnag, mae medrau lleiafrif o'r disgyblion wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn annatblygedig.

Mae'r disgyblion yn adnabod eu targedau personol yn dda ond nid ydynt bob tro yn gwybod sut i fesur eu llwyddiant yn erbyn meini prawf penodol ar ddiwedd gwers.

Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd. Gall llawer wneud penderfyniadau synhwyrol a chydweithio yn effeithiol ag eraill ohonynt.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos cynnydd da mewn medrau meddwl. Serch hynny, mae gallu llawer o'r disgyblion i weithio yn annibynnol mewn gwersi yn anghyson. Mae llawer yn dibynnu'n ormodol ar arweiniad oedolion wrth ddilyn tasgau ffurfiol, ond mae eu gallu i ddilyn gweithgareddau anffurfiol, rhyngweithiol neu ymarferol yn annibynnol, yn dda.

Mae canlyniadau cymwysterau Tystysgrif Lefel Mynediad a Thystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU) yn dangos bod disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn gwneud cynnydd da. Mae bron pob disgybl yn symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae'r rhai sydd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, ac yn symud i ysgolion eraill yn ymgartrefu yno yn dda.

**Lles: Rhagorol**

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn teimlo yn ddiogel ac yn barod i ofyn am gymorth pan fo'r angen. Maent yn mwynhau dod i'r Uned ac yn awyddus iawn i ddysgu. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn rhagorol, y tu allan a thu mewn i'r uned. Mae eu hagweddau at gyfranogi mewn gweithgareddau yn dda iawn a hynny wedi datblygu a gwella o sylfaen isel a heriol iawn yn aml.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyfranogi'n weithredol wrth osod rheolau ymddygiad i'r uned. Maent yn weithredol wrth osod a monitro'u targedau unigol eu hunain ac yn gwneud cynnydd sylweddol at gwrdd â'u targedau unigol o ran ymddygiad ac Addysg Bersonol a Chymdeithasol.

Mae ymddygiad ac awydd dysgu'r disgyblion hynny sydd wedi ailymuno ag ysgolion y brif ffrwd yn ardderchog ac yn gryfder arwyddocaol.

Mae bron pob disgybl wedi dangos cynnydd arwyddocaol yng nghyfradd eu presenoldeb ers ymuno â'r uned ac mae hyn yn gryfder amlwg.

Maent yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd presenoldeb ac effaith hynny ar eu datblygiad.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymwybodol o fwyta'n iach ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarfer corff yn rheolaidd. Mae llawer yn chwarae rhan gefnogol ym mywyd a gweithgareddau'r gymuned leol. Er enghraifft, trwy gyd weithio i wella'r amgylchedd leol ac yn cyfranogi'n dda mewn digwyddiadau elusennol trwy godi arian ar gyfer achosion penodol.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos medrau cydweithio ardderchog drwy gefnogi ei gilydd yn gyson mewn amrywiaeth o weithgareddau. Maent yn dangos parch at ei gilydd, at y staff ac at ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn barod i leisio'u barn ynglŷn â'u dysgu a'r hyn sy'n digwydd yn yr uned ac maent yn falch o hyn.

Mae bron pob disgybl yn dangos safonau uchel wrth ddefnyddio medrau cymdeithasol o fewn a thu allan i'r uned, yn parchu eraill ac yn ymddwyn yn gwrtais a chyfeillgar at eraill. Mae hyn yn gryfder.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r uned yn cynnig ystod eang iawn o brofiadau dysgu ym mhob cyfnod allweddol. Mae gan bob disgybl ei amserlen ei hun, wedi ei seilio ar ei anghenion a'i ddewisiadau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r disgyblion yn dilyn gwersi mewn dosbarthiadau prif lif, er enghraifft sesiynau llythrennedd, coginio a chymorth cyntaf. Yng nghyfnod allweddol 3, lle mae'n briodol, mae'r uned yn sicrhau bod y disgyblion yn cael eu haddysgu mewn ysgolion prif lif yn ogystal ag yn yr uned. Mae'r uned yn cydweithio yn dda gyda'r ysgolion hyn i sicrhau dilyniant a pharhad.

Yng nghyfnod allweddol 4, gall pob disgybl ddilyn ystod o gyrsiau academaidd a galwedigaethol sydd wedi eu hachredu. Mae hyn yn cynnwys cyrsiau Tystysgrif Lefel Mynediad ar gyfer pob disgybl, yn ogystal â TGAU mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg i'r disgyblion mwyaf galluog.

Mae cysylltiadau cryf iawn gydag ystod o bartneriaid sy'n galluogi disgyblion i ennill amrywiaeth o gymwysterau cydnabyddedig mewn meysydd galwedigaethol, er enghraifft mecaneg a gwaith saer. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn cynnig llwybrau tuag at ennill cymwysterau sy'n cydnabod cyraeddiadau mewn medrau personol a chymdeithasol yn ogystal ag addysg yn gysylltiedig â byd gwaith. Mae hyblygrwydd y cwricwlwm i gwrdd ag anghenion unigol y disgyblion yn gryfder amlwg.

Mae gan y disgyblion gyfleoedd da i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys medrau TGCh, wedi ei datblygu'n llawn.

Mae bron pob disgybl yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu medrau meddwl, ond nid oes cymaint o gyfleoedd i ddatblygu medrau annibynnol mewn gwersi ffurfiol.

Er bod pob plentyn yn cael cyfle i ddatblygu ei fedrau yn yr iaith Gymraeg, nid oes digon o gyfle iddynt ddefnyddio'r iaith yn achlysurol ac yn gyson. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru yn dda.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda.

**Addysgu: Da**

Mae addysgu o fewn pob cyfnod allweddol o fewn yr uned yn dda. Mae'r athrawon yn cynllunio gwersi yn effeithiol er mwyn cwrdd ag anghenion disgyblion unigol. Gwneir yn siŵr fod disgyblion yn deall pwrpas y gwersi yn ogystal â'u targedau unigol.

Mae'r athrawon yn defnyddio ystod o adnoddau a dulliau addysgu yn effeithiol ac maent yn rhannu eu gwersi yn weithgareddau pwrpasol a chryno. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn frwdfrydig am eu dysgu ac yn gwneud cynnydd da. Fodd

bynnag, nid oes cysondeb yn y defnydd o dechnoleg gwybodaeth ac ar adegau mae gormod o weithgareddau yn orddibynnol ar daflenni gwaith. Mae athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio yn effeithiol i gefnogi anghenion ymddygiad ac addysg y disgyblion. Mae gan yr holl staff ddealltwriaeth glir o strategaethau i ddelio gydag ymddygiad annerbyniol.

Mae'r uned yn defnyddio data yn effeithiol i fonitro ac adolygu cynnydd disgyblion unigol wrth gynllunio gwersi a gweithgareddau priodol. Mae'r data hefyd yn galluogi staff i adnabod pa ddisgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol.

Mae'r uned wedi datblygu polisi asesu clir. Mae'r athrawon yn cynnig adborth llafar da i'r disgyblion ac mae llyfrau'n cael eu marcio'n gyson. Mae hyn yn galluogi'r disgyblion i wybod pa mor dda maen nhw'n cyflawni a beth sydd angen iddyn nhw ei wneud i wella. Er bod yna gyfleoedd priodol i ddisgyblion werthuso eu gwaith eu hunain, nid yw'r ystod o strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu gwreiddio yn llawn ar draws pob gweithgaredd.

Mae'r uned yn cynnig gwybodaeth eglur iawn i rieni a gofalwyr sy'n eu cynorthwyo i ddeall y cynnydd sy'n cael ei wneud gan eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gofal, cymorth ac arweiniad yn dda iawn. Mae gan yr uned bolisïau a gweithdrefnau priodol sy'n hyrwyddo iechyd a lles yn effeithiol. Mae'r holl staff yn canolbwyntio'n llwyddiannus iawn ar greu amgylchedd diogel, gofalgar a llawn parch. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad a lles y disgyblion ac yn rhoi cefnogaeth werthfawr iddynt.

Mae'r uned yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Mae'r gwasanaethau boreol yn rhoi cyfleoedd cyson i'r disgyblion fyfyrio'n bwrpasol ar eu bywydau.

Gwneir defnydd effeithiol iawn o gymorth ystod eang o wasanaethau ac asiantaethau arbenigol aml-ddisgyblaethol. Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth hon yn fawr ac mae'n effeithio'n gadarnhaol iawn ar eu hymddygiad, eu datblygiad a'r cynnydd yn eu presenoldeb. Mae'r bron pob un o'r disgyblion yn dweud bod cefnogaeth y staff wedi sicrhau eu bod wedi dod i ddeall a gwerthfawrogi pwysigrwydd gwella presenoldeb a phrydlondeb. Mae'r ystod eang o strategaethau ar gyfer gofal, arweiniad a chefnogaeth yn gryfder arwyddocaol.

Mae'r llawlyfr cynhwysfawr a chyfarfodydd cyson yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn derbyn gwybodaeth berthnasol am yr uned a'i gwaith.

Mae'r uned yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol ei disgyblion yn dda ac yn sicrhau bod cefnogaeth briodol yn ei lle. Mae rhaglenni unigol yn cynorthwyo disgyblion i wneud cynnydd da iawn ac i fagu hyder. Mae cynlluniau addysgu unigol yn cael eu hadolygu a'u haddasu yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn gosod targedau gwella priodol.

Mae trefniadau'r uned ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol o fewn yr uned sy'n dangos parch amlwg tuag at staff a disgyblion ac mae hyn yn gryfder. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith sy'n hyrwyddo'r ethos cynhwysol hwn yn effeithiol.

Mae gan bob disgybl gyfle cyfartal i'r cwricwlwm a phob gweithgaredd, ac fe'u hanogir i werthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn cymdeithas.

Mae'r uned ar draws tair safle, gyda phob un ohonynt yn hygyrch ac addas ar gyfer dibenion dysgu'r disgyblion.

Ceir amrediad addas o adnoddau penodol ar gyfer anghenion dysgu'r disgyblion ac arddangosfeydd pwrpasol sy'n hybu rheolau a disgwyliadau'r ysgol.

Defnyddir canolfannau hamdden lleol yn rheolaidd i ychwanegu yn dda at weithgareddau addysg gorfforol a gynigir.

Ceir toiledau addas ar gyfer staff a disgyblion ac mae'r canolfannau yn ddiogel ac yn cael eu cadw'n lân.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r pwyllgor rheoli wedi sefydlu a chyfathrebu gweledigaeth glir sy'n cael ei rhannu a'i gweithredu'n arbennig gan yr athrawes â gofal a'r staff. Gyda'i gilydd maent yn rhoi cyfeiriad a strwythur eglur iawn i waith yr uned. Maent wedi gweithredu datblygiadau cynhwysfawr, mewn amser cymharol fyr, sy'n ffocysu'n benodol ar gwrdd ag anghenion dysgu a chymdeithasol amrediad eang o ddisgyblion.

Mae'r strwythur a'r datblygiadau hyn yn gryfderau arwyddocaol sydd wedi sicrhau bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos cynnydd da mewn safonau a lles, yn gwella eu presenoldeb yn sylweddol ac yn ailintigreiddio yn llwyddiannus i ysgolion y brif ffrwd.

Mae adnabyddiaeth y pwyllgor rheoli o'r uned yn gryfder. Maent yn cynnig sialens a chefnogaeth effeithiol iawn. Gweler effaith y gwaith hwn yn y cynnydd amlwg mae'r disgyblion yn ei wneud mewn presenoldeb ac ymddygiad. Mae cofnodion cyfarfodydd yn gynhwysfawr ac yn blaenoriaethu meysydd datblygu.

Mae systemau rheoli perfformiad wedi eu cysylltu'n llwyddiannus gydag amcanion cynllun datblygu'r uned.

Mae'r staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn dda iawn. Mae gan y rheolwyr ddisgwyliadau uchel ac maent yn eu cyfathrebu i'r staff yn effeithiol iawn.

Mae system arweinyddiaeth ddosranedig yr uned yn cael effaith fuddiol iawn ar safonau disgyblion a datblygiad staff ar draws y tri safle.

Mae'r uned yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol yn briodol ac yn sicrhau bod pwyslais briodol ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion yn ogystal â darparu ystod eang iawn o gyfleoedd dysgu.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunanarfarnu'n rhan annatod o waith yr uned ac mae pob aelod o staff yn cyfrannu'n weithredol at y broses. Mae gan arweinwyr a rheolwyr ddealltwriaeth dda iawn o gryfderau'r uned a meysydd sydd angen eu datblygu'n bellach. Mae'r uned wedi defnyddio'r wybodaeth o'i hunanarfarniad i osod blaenoriaethau a thargedau ar gyfer gwelliant ac mae hyn wedi arwain at wella safonau lles a'r gofal a gynigir i ddisgyblion.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gynhwysfawr gyda'r blaenoriaethau'n glir a bron bob un ohonynt yn cael eu gweithredu'n effeithiol o fewn y canolfannau. Mae defnydd da yn cael ei wneud o farn rhieni, gofalwyr ac ystod eang o randdeiliaid.

Defnyddia'r staff y data perfformiad sydd ar gael yn gyson i fonitro cynnydd a chynllunio ar gyfer gwella. Mae hyn wedi arwain at gynnydd cyson yn safonau cyflawniad y disgyblion.

Mae amrywiaeth o randdeiliaid yn arsylwi gwersi'n effeithiol. Gwneir defnydd da iawn o asiantaethau allanol a'r awdurdod lleol i gadarnhau a dilysu arfarniadau'r uned. O ganlyniad, ceir ffocws eglur ar godi safonau ar draws yr uned.

Mae staff yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o rwydweithiau arfer broffesiynol ac mae hyn yn sicrhau bod arfer dda yn cael ei rhannu ar draws yr uned.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae cyfathrebu effeithiol rhwng yr uned a'r rhieni a gofalwyr yn helpu disgyblion i wella eu safonau a'u lles.

Mae gweithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gryf iawn at ehangu'r ystod o ddewisiadau ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4. Mae arweinwyr canolfannau yr uned yn chwarae rhan flaenllaw mewn sicrhau ansawdd cyrsiau sy'n cael eu darparu trwy'r awdurdod lleol. Mae'r cydweithio rhagorol mewn partneriaeth rhwng y Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad, yr uned, ysgolion prif ffrwd a darparwyr eraill yn rhagoriaeth ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y deilliannau ar gyfer disgyblion, yn enwedig o ran parhad a dilyniant eu dysgu.

Mae gan yr athrawes â gofal berthynas gryf iawn gydag amrywiaeth eang o bartneriaid ar draws yr awdurdod lleol. Mae hi'n aelod llawn o Bwyllgorau Penaethiaid Cynradd ac Uwchradd. Mae hyn yn sicrhau ei bod yn gyfarwydd â datblygiadau addysgol diweddaraf sy'n cryfhau arbenigedd yr uned. Mae gan yr uned gysylltiadau defnyddiol gyda'r gymuned. Mae enghraifft dda o ddisgyblion Canolfan yr Eos yn defnyddio medrau annibynnol mewn archfarchnad leol. Ceir ymweliadau â gorsaf heddlu, ynghyd â chanolfan cwrs beicio sydd yn cyfrannu yn dda tuag at wella ymwybyddiaeth y disgyblion o agweddau ar ddiogelwch. Mae disgyblion Canolfan Cribyn hefyd wedi trefnu bore coffi i'w cymdogion lleol.

Mae'r uned yn cydweithio'n arbennig gydag ysgolion lleol i integreiddio disgyblion yn ôl i ysgolion prif lif. Mae pob plentyn yng nghyfnod allweddol 2 a 3 o fewn yr uned yn symud i ysgol briodol ac yn aros yno, gan barhau i dderbyn cefnogaeth gan staff yr uned am gyfnod penodol. Mae'r cydweithio agos rhwng yr uned, yr ysgolion a gwasanaethau'r awdurdod lleol yn ganolog i'r llwyddiant hwn.

Mae staff yr uned yn cydweithio gydag ysgolion lleol i sicrhau bod lefel cyraeddiadau'r disgyblion sy'n dychwelyd i'r ysgol yn cael eu hadnabod yn glir.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr uned amrediad da o staff sydd ag ystod eang o arbenigedd mewn gwahanol feysydd a gweithgareddau. Mae'r staff yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi'r disgyblion ac i gyfarfod â gofynion y cwricwlwm.

Mae gan y safleoedd gwahanol amrediad da o adnoddau sy'n ateb gofynion disgyblion ar y cyfan. Serch hynny, nid oes cysondeb yn y defnydd o gyfarpar technoleg gwybodaeth.

Mae gan yr uned bolisi a strategaethau priodol ar gyfer rheoli perfformiad athrawon a staff cynnal. Mae hyn yn sicrhau fod anghenion datblygu staff ac uned gyfan yn cael eu hadnabod a'u cyfarfod yn llwyddiannus.

Mae gwariant yn cael ei gysylltu'n ofalus gyda blaenoriaethau cynllun datblygu'r uned. Mae'r uned yn cydweithio yn effeithiol gyda'r awdurdod lleol i reoli a monitro'r gwariant.

O ystyried effaith gadarnhaol yr arweiniad strategaethol o fewn yr uned i sicrhau safonau uchel mewn lles, presenoldeb ac ymddygiad y disgyblion, mae'r uned yn rhoi gwerth da iawn am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Cafwyd 12 ymateb i holiaduron y rhieni neu ofalwyr.

Yr oedd yr holl rieni a ymatebodd yn cytuno bod y staff yn trin pob disgybl yn deg a gyda pharch a bod gwybodaeth gyson yn cael ei rhoi am gynnydd eu plentyn. Maent i gyd yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r uned, gwneud awgrymiadau neu nodi problem ac maent yn fodlon â'r uned yn gyffredinol. Maent o’r farn fod trefn yr uned ar gyfer delio â chwynion yn hawdd ei deall.

Roedd yr holl rieni yn teimlo bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da a bod y staff yn disgwyl i’w plentyn weithio'n galed ac i wneud ei gorau. Maent yn dweud bod eu plentyn yn ddiogel yn yr uned, bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol a bod yna amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. Teimlant fod yr uned yn cael ei rhedeg yn dda, bod eu plentyn wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr uned a bod eu plentyn yn hoffi'r uned. Cred yr holl rieni a ymatebodd i'r holiadur fod yr addysgu yn dda, bod eu plentyn yn cael ei annog i fod yn iach. Maent o'r farn fod yr uned yn eu hannog i wneud ymarfer corff yn rheolaidd a'u bod yr uned yn helpu eu plentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb, gan eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.

Roedd llawer o’r rhieni yn teimlo bod yr uned yn paratoi eu plentyn yn dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf, goleg neu waith.

**Ymateb i holiaduron y dysgwyr**

Cwblhaodd 13 o ddisgyblion yr holiadur.

Mae pob disgybl yn dweud eu bod yn gwybod gyda phwy y dylai siarad os yw’n poeni neu’n gofidio ac yn gwybod beth i’w wneud a chyda phwy i siarad os yw’n gweld y gwaith yn anodd.

Maent i gyd hefyd yn credu bod yr uned yn fan diogel ar eu cyfer ac yn delio’n dda ag unrhyw fwlio.

Mae’r holl ddisgyblion a ymatebodd i’r holiadur o'r farn fod yr uned yn eu dysgu sut i aros yn iach ac yn cynnig llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd.

Maent i gyd hefyd yn credu bod yr athrawon ac oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu ac i wneud cynnydd, bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud ei waith, a’u bod yn gwneud yn dda yn yr uned.

Roedd llawer o’r disgyblion yn dweud bod digonedd o gyfleoedd yn yr uned iddynt gael ymarfer corff yn rheolaidd, a bod disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac felly yn sicrhau bod y disgyblion yn gallu cwblhau eu gwaith.

# Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Glyn Griffiths | Arolygydd Cofnodol |
| Caroline Rees | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Trefor Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Margaret Davies | Enwebai'r Uned |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau ADY

**ADDLl**:  anawsterau dysgu dwys a lluosog

**ADHD**:  anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio

**ADP**:  anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

**ADY**:  anghenion dysgu ychwanegol

**ASA**:  Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy’n cynnwys Syndrom Asperger

**AYA**:  adnodd ychwanegol yr athro

**AYECh**:  Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

**CY**:  Cod Ymarfer

**NAS**:  nam amlsynhwyraidd

**NC**:  nam ar y clyw

**NG**:  nam ar y golwg